Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwaith Craffu Blynyddol 2022-23

Mai 2023

## 1. Cyflwyniad

**1.** Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei greu gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013, gan uno tri chorff: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ymgorfforodd hefyd nifer o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac, o 1 Ebrill 2016, swyddogaethau'r tri Bwrdd Draenio Mewnol a oedd yn gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

**2.** Yn ogystal ag ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ynghylch materion yn ymwneud ag adnoddau naturiol. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n atebol i Weinidogion Cymru drwy'r Gweinidog Nawdd (Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') ar hyn o bryd), ac yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau perthnasol y Senedd. Mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn arfer ei swyddogaethau deddfwriaethol yn briodol ac yn effeithiol.

**3.** Ar 9 Chwefror 2023, ymddangosodd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y Prif Weithredwr, gerbron y Pwyllgor am sesiwn graffu. Rydym yn ddiolchgar i gynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru am eu cydweithrediad.

# 2. Llywodraethiant

## Llythyr cylch gwaith

**4.** Ym mis Rhagfyr 2022, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd lythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r llythyr cylch gwaith yn amlinellu'r amcanion strategol ar gyfer CNC. Mae'n pwysleisio'r angen i CNC integreiddio ei waith a'i weithgareddau â'r nodau llesiant trosfwaol sydd yn y Rhaglen Lywodraethu. Yn ôl y llythyr cylch gwaith, mae'r Gweinidog yn disgwyl i CNC chwarae rhan hanfodol o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r economi gylchol ac aer glân, ynni, rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, draenio cynaliadwy ac addasu i'r hinsawdd, coedwigaeth, natur, tirweddau dynodedig a mynediad i gefn gwlad, môr a physgodfeydd, ac ansawdd dŵr.

## Adolygiad sylfaenol

**5.** Mae'r Pwyllgor hwn wedi mynegi pryderon yn y gorffennol ynghylch gallu CNC i gyflawni ei swyddogaethau statudol gyda'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu iddo. Yn ystod y gwaith craffu y llynedd, daeth y Pwyllgor i'r casgliad "gan fod ei gyllideb wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi pentyrru cyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol ar y sefydliad". Dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y byddai'r cwestiwn parhaus ynghylch a yw CNC yn gallu arfer ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol yn cael sylw drwy adolygiad sylfaenol.

**6.** Mae CNC bellach wedi cwblhau'r adolygiad sylfaenol, a oedd, meddai, â'r nod o gysoni adnoddau â blaenoriaethau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Gan weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, defnyddiwyd yr adolygiad i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer meysydd allweddol fel rheoli perygl llifogydd, ystâd CNC (gan gynnwys yr ystâd goetir), rheoli digwyddiadau llygredd, gorfodaeth, ansawdd dŵr, a mwy. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd CNC:

> *"Mae hon wedi bod yn broses hir ond yn un bwysig er mwyn rhoi dealltwriaeth gyffredin a thrylwyr i Lywodraeth Cymru ac CNC o'r hyn sy'n ein hwynebu wrth i ni fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a chyflawni ymrwymiadau allweddol y llywodraeth".*

**7.** Dywedodd CNC y byddai'r llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth a'r cytundebau lefel gwasanaeth yn sail i gynllun busnes blynyddol a phrosesau cyllideb CNC. Dywedodd CNC wrth y Pwyllgor nad yw'r cytundebau lefel gwasanaeth yn bethau sefydlog ac y bydd yn eu hadolygu'n unol ag amserlenni y cytunir arnynt gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwasanaethau'n adlewyrchu arloesedd mewn arferion gwaith.

**8.** Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd CNC fod cytundebau lefel gwasanaeth wedi'u paratoi mewn deg maes. Bydd cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer y meysydd sy'n weddill ar waith erbyn mis Medi 2023 a byddent yn llywio proses gosod cyllideb y flwyddyn nesaf.

**9.** Byddai'r dull hwn yn gwneud cyllideb CNC yn fwy sefydlog yn y dyfodol. Eglurodd Rachael Cunningham:

> *"once we've agreed the service levels that we're going to be operating at and the level of funding that we can have, that will stay fairly stable. It will only then change when Welsh Government want us to do things differently."*

**10.** Roedd y broses wedi galluogi CNC i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am lefel y gwasanaeth yr hoffai ei chael. Eglurodd Clare Pillman:

> *"'If you want to do this, this is how much it's going to cost, and this is what you will get for that. And if you want to do a bit more, this is what it would look like. If you want to do the bare minimum, this is what it would look like.' So, I think we have a really good granular understanding of our budget and resources and effort now."*

## Bwrdd CNC

**11.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd CNC ei fod yn gyffrous o gael cyhoeddi bod chwe aelod newydd wedi'u penodi i'w fwrdd. Roedd y swyddi a lenwyd yn cynnwys rolau fel Cadeiryddion y Pwyllgorau Cyllid, Llifogydd ac Archwilio. Roedd disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud cyhoeddiad ffurfiol ynghylch y penodiadau yn fuan, ac roedd CNC yn gobeithio y byddai'r aelodau newydd yn dod i gyfarfod ei Fwrdd ym mis Mawrth 2023.

## Cynllun corfforaethol

**12.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd CNC wrthym y datblygwyd ei gynllun corfforaethol diweddaraf drwy gydweithio ac ymgysylltu ag amrywiol

randdeiliaid, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd. Y nod oedd meithrin cyd-ddealltwriaeth o ffocws ac amcanion y cynllun. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd CNC ei fod yn disgwyl lansio'r cynllun ym mis Mehefin.

**13.** Eglurodd Clare Pillman y byddai'r cynllun yn canolbwyntio ar dri amcan llesiant: yr argyfwng natur, yr argyfwng hinsawdd, a lleihau llygredd a gwastraff. Mae'r cynllun yn golygu gweithio ochr yn ochr â sectorau cyhoeddus, elusennol a phreifat Cymru i gyflawni'r amcanion hyn.

## Rhaglen Adfywio

**14.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd CNC y lansiwyd y rhaglen Adfywio ar ôl pandemig Covid-19 gyda'r nod o drawsnewid y sefydliad yn endid ystwyth, gwydn a mwy effeithlon. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatgarboneiddio, llesiant staff, ac arbedion ariannol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau gwell cymorth i staff mewn amgylchedd gwaith hybrid. Drwy'r rhaglen, roedd CNC hefyd yn gweithio ar ddatgarboneiddio'i weithgareddau, gan ganolbwyntio ar gydgrynhoi swyddfeydd a chyfleusterau, lleihau allyriadau carbon o'i fflyd, a gweithredu polisïau teithio newydd.

## Cynllun Busnes a mesurau perfformiad

**15.** Mae cynllun busnes Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod o dan ei gynllun corfforaethol. Mae'r Cynllun Busnes diweddaraf yn pennu pum blaenoriaeth y cytunwyd arnynt gyda'r Gweinidogion ac sydd, yn ôl CNC, yn cyd-fynd â'r 'archwiliadau dwfn' diweddar ac ymrwymiadau gweinidogol eraill:

- Caniatâd morol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy;
- Galluogi cynlluniau plannu coed;
- Atal llifogydd ac ymdrin â thomennydd glo;
- Ansawdd dŵr; a
- Bioamrywiaeth

**16.** Mae CNC yn olrhain ei berfformiad yn erbyn nifer o fesurau drwy 'ddangosfwrdd' ei Gynllun Busnes, sy'n defnyddio system goleuadau traffig i nodi cynnydd. O ran y 30 o fesurau, dangosodd yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer 2021-22 fod 22 yn 'wyrdd', bod 6 yn 'oren' a bod dau yn 'goch'.

**17.** Esboniodd Clare Pillman fod dau fesur wedi'u dosbarthu'n rhai 'coch' ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021-22. Roedd un yn ymwneud â chynlluniau rheoli

basn afonydd ac ymchwiliadau cysylltiedig â dŵr, a gafodd eu hailflaenoriaethu oherwydd pwysigrwydd gwaith ar orlifoedd stormydd a ffosffadau. Y mesur ‘coch’ arall oedd y strategaeth profiad cwsmeriaid, a oedd wedi wynebu anawsterau o ran sicrhau cyflenwr arbenigol a allai ddarparu'r gwasanaethau dwyieithog gofynnol. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd, ac mae’r gwaith yn mynd rhagddo.

**18.** Yn y flwyddyn gyfredol, dosbarthwyd dau fesur yn rhai 'coch' ar ddiwedd Chwarter 2 (2022-23). Roedd y cyntaf yn ymwneud â chamau wedi'u targedu ar gyfer rhywogaethau sy'n prinhau, yn benodol y rhai sydd ar fin difodi. Roedd angen adolygu'r polisi a'r prosesau trawsleoli, ac roedd heriau o ran recriwtio staff arbenigol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae CNC wedi recriwtio staff i’r rôl yn y cyfamser, ac mae’r gwaith yn mynd rhagddo.

**19.** Roedd yr ail fesur ‘coch' ar ddiwedd Chwarter 2 yn ymwneud ag ailgynllunio'r rhwydwaith monitro ansawdd dŵr croyw. Bu heriau o ran recriwtio staff arbenigol yn y maes hwn, ond llwyddodd CNC i recriwtio swyddog arbenigol ym mis Rhagfyr 2022 i arwain y gwaith gweithredu yn 2023/24 a 2024/25.

## Sgiliau

**20.** Cydnabu Clare Pillman fod y corff yn wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff arbenigol mewn rhai meysydd. Mae CNC weithiau’n denu staff arbenigol i ffwrdd o awdurdodau lleol, sy’n cael effaith ar eu capasiti. Ar gyfer rolau eraill, fel peirianneg, mae CNC yn colli staff i’r sector preifat, lle mae’r cyflogau’n uwch. Yn ogystal, ceir rhai meysydd lle mae diffyg darpar ymgeiswyr sydd â’r sgiliau angenrheidiol.

**21.** Eglurodd Ceri Davies fod CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru ac awdurdodau lleol i geisio datblygu cyrsiau prifysgol i annog mwy o raddedigion i fynd ar drywydd gyrfaoedd yn y sector. Maent wedi creu cynlluniau yn CNC i fyfyrwyr MSc a PhD fagu profiad.

**22.** Ychwanegodd Clare Pillman fod cyfraddau cadw staff yn gyffredinol dda oherwydd y telerau a’r amodau, y cymorth, a’r dysgu a datblygu y mae CNC yn eu cynnig.

## Ein barn ni

Mae’r Pwyllgor yn nodi’r amcanion strategol a amlinellir yn y llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth ac ymrwymiad CNC i integreiddio’i waith a’i

weithgareddau â'r amcanion llesiant cyffredinol yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn yn ddull i'w ganmol.

Mae'r Pwyllgor yn canmol ffocws CNC ar yr amcanion llesiant o fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd a lleihau llygredd a gwastraff yn ei gynllun corfforaethol. Mae'r Pwyllgor yn annog CNC i rannu enghreifftiau o fentrau sy'n mynd rhagddynt neu sydd ar y gweill ac yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant i feithrin tryloywder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr adolygiad sylfaenol o ran mynd i'r afael â'n pryderon hirsefydlog ynghylch capasiti CNC i gyflawni ei restr gynyddol fyth o ddyletswyddau a swyddogaethau. Mae datblygu cytundebau lefel gwasanaeth ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Dylai CNC gyhoeddi crynodebau lefel uchel o'r cytundebau lefel gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Credwn hefyd y dylai CNC a Llywodraeth Cymru sefydlu proses ar gyfer monitro a gwerthuso'r cytundebau lefel gwasanaeth, gan sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau y ddwy ochr wrth iddynt esblygu.

Mae'r Pwyllgor yn nodi sefydlu'r rhaglen Adfywio. Mae'r ffocws ar ddatgarboneiddio, llesiant staff ac arbedion ariannol i'w ganmol. Dylai CNC ystyried sut y gall rannu gwybodaeth am ganlyniadau neu gerrig milltir a gyflawnir o dan y rhaglen ac amlinellu targedau ar gyfer y dyfodol er mwyn rhoi dealltwriaeth gliriach o gynnydd y rhaglen a'i heffaith.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau y mae CNC yn eu hwynebu o ran recriwtio a chadw staff arbenigol mewn meysydd penodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod CNC yn ymchwilio i gyfleoedd i gryfhau ei bartneriaethau â sefydliadau academaidd a phartneriaid diwydiant i ddatblygu mentrau wedi'u targedu i feithrin capasiti a chynnig hyfforddiant. Gallai'r mentrau hyn gynnwys interniaethau, prentisiaethau, a chyrsiau arbenigol i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau mewn meysydd hollbwysig.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru rannu â'r Pwyllgor y cytundebau lefel gwasanaeth manwl y mae wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl. Dylai gyhoeddi crynodebau lefel uchel o'r cytundebau lefel gwasanaeth hyn er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw.

**Argymhelliad 2.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru sefydlu proses fonitro a gwerthuso ar gyfer ei gytundebau lefel gwasanaeth. Dylai'r

broses hon gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid a diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar sut mae'r cytundebau lefel gwasanaeth yn parhau i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau esblygol y ddau barti.

**Argymhelliad 3.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y canlyniadau a'r cerrig milltir mesuradwy a gyflawnwyd o dan y rhaglen Adfywio ac amlinellu targedau at y dyfodol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithio â sefydliadau academaidd a phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu mentrau wedi'u targedu i feithrin capasiti a darparu hyfforddiant, megis interniaethau, prentisiaethau, a chyrsiau arbenigol, a hynny i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau mewn meysydd hollbwysig. Dylai CNC osod amserlen ar gyfer gweithredu'r mentrau hyn ac ymgynghori â rhanddeiliaid i sicrhau eu heffeithiolrwydd o ran recriwtio a chadw staff arbenigol.

# 3. Cyllideb CNC

**23.** Cyfanswm incwm CNC ar gyfer 2021/22 oedd £88 miliwn. At hynny, darparodd Llywodraeth Cymru werth £130 miliwn mewn Cymorth Grant a grantiau eraill tuag at ystod o ganlyniadau, a dyrannwyd £38 miliwn ohono i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

**24.** Cynyddodd cyfanswm gwariant CNC am y flwyddyn o £225 miliwn i £255 miliwn (cynnydd pellach o £207 miliwn yn 2020/21). Dywed CNC fod y newid diweddar hwn mewn gwariant oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys costau staff uwch oherwydd pensiynau, a phrisio coed a gwympwyd yn ystod y flwyddyn.

**25.** Mae CNC yn cael cyllid craidd ar gyfer ei swyddogaethau sylfaenol, a chyllid grant ychwanegol ar gyfer prosiectau y tu hwnt i'r swyddogaethau hynny. Arhosodd dyraniadau cyllideb (cyllid craidd) i CNC yr un fath ar gyfer 2023/24.

**26.** Mae rheoli effaith chwyddiant yn parhau i fod yn her i CNC. Yn ôl Rachael Cunningham, mae CNC yn wynebu costau cynyddol mewn sawl maes, fel contractwyr allanol ar gyfer rhaglenni, costau ynni ar draws eu hystâd, a llai o incwm o gwympo coed. I liniaru'r effeithiau hyn, cymerodd CNC gamau i gynyddu incwm masnachol drwy ynni gwynt a chynigiodd doriadau o oddeutu £4 miliwn i'w sylfaen costau ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**27.** Hefyd, daeth CNC i setliad o 4 y cant ar ei ddyfarniad cyflog, a oedd 2 y cant yn fwy nag a gyllidebwyd. Mae wedi cyllidebu cynnydd o 2 y cant y flwyddyn nesaf ond cydnabu y gallai'r setliad fod yn fwy.

## Bwlch ariannu

**28.** Ar 29 Ebrill, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau ariannu CNC. Roedd hyn mewn ymateb i argymhelliad gan y Pwyllgor yn deillio o'i waith craffu ar y gyllideb ddrafft, a ofynnodd i'r Gweinidog ddarparu manylion ynghylch sut a phryd y byddai gwaith yn digwydd i fynd i'r afael â bwlch ariannu CNC. Yn ei llythyr, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi "adolygu cyllidebau o fewn fy Mhrif Grŵp Gwariant, ar y cyd â chydweithwyr yn y Cabinet, gyda'r bwriad o roi sylw i fwlch cyllid CNC". Dywedodd y Gweinidog:

> *"O ganlyniad i'r gwaith ailbroffilio, mae'n bleser gennyf ddweud wrth y Pwyllgor fy mod wedi cytuno i roi cyllid ychwanegol i CNC gwerth £18.2 miliwn i'w dynnu i lawr yn 2023–24, yn ddarostyngedig i gynllun busnes wedi'i alinio â'r gweithgareddau maent wedi'u hamlinellu yn eu Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Rwy'n bwriadu ffurfioli'r trefniadau hyn yn y gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin, i sicrhau nad oes unrhyw ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid y byddant yn ei derbyn yn 2023–24."*

**29.** Daeth y Gweinidog i'r casgliad a ganlyn:

> *"Fel rhan o gyllideb ddrafft 2024–25 rwy'n bwriadu cynnwys yr £18.2 miliwn yma yn nyraniad sylfaenol CNC. Mae angen cydnabod bod y cyd-destun cyllidol yn parhau'n heriol iawn a bydd yn amodol ar broses cyllideb 2024-25. Fy ngobaith yw y gallwn gyflawni hyn er mwyn datrys bwlch cyllid CNC yn ogystal â mynd i'r afael ag atebolrwydd pensiynau CNC, sy'n rhan o'r £18.2 miliwn."*

## Taliadau/ffioedd rheoleiddio

**30.** Ariennir cyfrifoldebau rheoleiddio CNC drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru neu drwy daliadau a godir ar y rhai y maent yn eu rheoleiddio. Mae'n ofynnol i CNC adennill costau gwasanaethau rheoleiddio yn llawn

**31.** Comisiynodd CNC Adolygiad Strategol o Godi Tâl, a oedd yn dangos nad oedd costau'n cael eu hadennill yn llawn ar draws y rhan fwyaf o gyfundrefnau,

gan arwain at ddiffyg blynyddol o £3 miliwn o ran cyflawni gweithgareddau trwyddedu, gyda dim ond 24 y cant o'r costau yn cael eu hadennill. Dywed CNC fod y diffyg hwn yn cael ei fodloni ar hyn o bryd drwy leihau ei wasanaeth mewn meysydd eraill o'i waith, ond nad yw'n ddigon i gydbwyso costau llawn darparu. Gan nad yw'r taliadau presennol bellach yn adlewyrchu costau llawn darparu'r gwasanaethau, mae arian trethdalwyr yn cael ei ddefnyddio i sybsideiddio'r gweithgarwch.

**32.** Ar ddiwedd 2022, cynhaliodd CNC ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion newydd ar gyfer codi tâl. O dan y cynigion newydd, bydd talwyr taliadau yn talu am y gwasanaethau llawn y maent yn eu defnyddio. Os cânt eu cymeradwyo, bydd taliadau'n cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2023 ymlaen ar gyfer y canlynol:

- Rheoleiddio'r diwydiant dŵr;
- Gwastraff safleoedd;
- Ansawdd dŵr
- Adnoddau dŵr;
- Cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr; a
- Chyflwyno taliadau trwyddedu rhywogaethau.

**33.** Yn ôl Ceri Davies, cafodd CNC dros 100 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar daliadau rheoleiddio, a ddaeth i ben ddechrau mis Ionawr. Defnyddiodd CNC ymgynghorydd annibynnol i asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar sail y dadansoddiad o'r ymatebion, byddai CNC yn gwneud cyflwyniad terfynol i'w drafod gan ei Fwrdd cyn ei roi i'r Gweinidog i gael penderfyniad.

**34.** Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru wedi mynegi pryder ynghylch y cynnig, gan annog CNC i ailystyried y cynigion yng nghyd-destun yr ansicrwydd digynsail y mae'r sector amaeth yn ei wynebu yng Nghymru. O ran yr effaith bosibl ar y sector amaeth, cydnabu Ceri Davies fod pwysau costau byw yn golygu bod hwn yn gyfnod heriol i godi costau. Ychwanegodd:

> *"For the whole sector, we've estimated, again, based on past information, that we're probably looking at a difference of £140,000 for the whole of the sector for all of the charges that we are bringing further forward."*

**35.** Dywedodd Ceri Davies fod CNC wedi ymrwymo i sicrhau bod y cynllun taliadau newydd yn seiliedig ar adennill costau llawn, gan ystyried pryderon

rhanddeiliaid ar yr un pryd. Nododd hefyd y byddai'r cynnydd mewn taliadau yn gymwys i geisiadau newydd am drwyddedau yn unig ac mai tâl untro fyddai hwn, nid tâl trwydded blynyddol.

**36.** Eglurodd Ceri Davies mai nod CNC oedd osgoi cynnydd sydyn mewn taliadau yn y dyfodol:

> *"we haven't increased these charges in some instances for some considerable time period, because we needed to go through this process of analysing new requirements that have come in in legislation, for example, new things need to be assessed in a deeper way for, perhaps, habitats regulations assessments…But there is a commitment from us that we certainly will ensure that, from now on in, we keep this up to date so that nobody is facing a 20-year gap in a sudden increase in application fees."*

## Ein barn ni

Yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, buom yn trafod sawl mater yn ymwneud â chyllid CNC gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Roedd ein hadroddiad yn codi nifer o bryderon, a byddwn yn eu hailadrodd yma.

Yn gyntaf, rydym yn croesawu'r adolygiad sylfaenol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac CNC. Rydym wedi bod yn pryderu ers tro byd am allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn effeithiol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Mae'r adolygiad sylfaenol a datblygu cytundebau lefel gwasanaeth rhwng CNC a Llywodraeth Cymru yn gyfle i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roeddem yn bryderus o glywed bod yr adolygiad wedi nodi bwlch ariannu. Mae sawl ffactor, gan gynnwys rhwymedigaethau pensiwn ac amrywiad mewn incwm pren, wedi achosi'r diffyg. Mae rhwymedigaethau pensiwn yn broblem hanesyddol ac roedd yn bryder pan grëwyd CNC bron i ddegawd yn ôl.

Roeddem yn falch o gael llythyr y Gweinidog, lle cadarnhaodd y bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i lenwi'r bwlch ariannu, gan gynnwys y rhwymedigaethau pensiwn, ar gyfer 2023-24. Rydym yn croesawu awgrym y Gweinidog mai ei bwriad yw y bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei osod fel llinell sylfaen yn nyraniad cyllid CNC yn y dyfodol o 2024-25. Rydym yn nodi ac yn deall y bydd hyn yn amodol ar yr ystyriaeth arferol o ddyraniadau cyllid fel

rhan o'r broses gyllidebu. Serch hynny, rydym yn falch, ar ôl cyfnod hir o ansefydlogrwydd ariannol, ei bod yn ymddangos y gallai trefniadau ariannu CNC fod yn symud i sefyllfa fwy sefydlog o'r diwedd.

O ran y newidiadau i daliadau a ffioedd rheoleiddio, rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan ffermwyr y byddai'r newidiadau'n effeithio arnynt. Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r angen i CNC adennill costau'n llawn. Fodd bynnag, dylid osgoi cynnydd sydyn mewn costau ar adeg o ansicrwydd economaidd os yw'n bosibl.  Cawsom sicrwydd yn sgil sylwadau Ceri Davies na ddylai cynnydd mewn costau fod mor sydyn yn y dyfodol. Serch hynny, credwn y dylai CNC ystyried effaith costau ar ymgeiswyr unigol ac y dylai fod yn rhan o'r cyngor a gyflwynir i Fwrdd CNC ac, yn olaf, i'r Gweinidog i gael penderfyniad.

**Argymhelliad 5.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd ei Adolygiad Strategol o Godi Tâl a'r cynigion ar gyfer cynnyddu taliadau/ffioedd.

**Argymhelliad 6.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gynnwys gwybodaeth yn ei gyngor i'r Gweinidog am y goblygiadau ariannol i ymgeiswyr unigol yn sgil ei newidiadau arfaethedig i daliadau/ffioedd.

# 4. Blaenoriaethau CNC

## Dŵr

**37.** Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cymru a Lloegr) 2017 (Rheoliadau 2017) yw'r prif fecanwaith ar gyfer asesu a rheoli'r amgylchedd dŵr. Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i atal dirywiad pob corff dŵr a sicrhau eu bod yn ennill statws da erbyn 2027.

**38.** Mae CNC yn rhedeg rhwydwaith o bwyntiau monitro ansawdd dŵr ledled Cymru, sy'n pennu dosbarthiadau statws cyrff dŵr. Mae gan CNC nifer o brosiectau a rhaglenni rhagweithiol sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r nodau a geir yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon i wella ansawdd dŵr. Cafodd y cylch presennol o Gynlluniau Rheoli Basn Afon (2021-2027) eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022. Eglurodd CNC fod y dosbarthiadau yn Rheoliadau 2017 yn seiliedig ar amrywiaeth o faterion.

### Mynd i'r afael â llygredd amaethyddol

**39.** Llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth yw un o'r prif resymau pam mae cyrff dŵr Cymru yn methu â chyflawni 'statws da' o dan Reoliadau 2017, a'r sector

llaeth sy’n gyfrifol am y rhan fwyaf o achosion o lygredd amaethyddol. Mae rheoliadau llygredd amaethyddol yn mynd i’r afael â hyn. Mae CNC wedi dweud yn y gorffennol y bydd gorfodi’r rheoliadau yn llwyth gwaith enfawr, ac y bydd angen ymhell dros 200 o staff ychwanegol i gyflawni’r rôl lawn.

**40.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd CNC y byddai’n cael cyllid o £2,550,000 dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, gydag £1 miliwn yn 2023-24 ac £1.55 miliwn yn 2024-25. Cadarnhaodd Clare Pillman y byddai'r polisi'n cael ei adolygu ar ôl yr ymrwymiad ariannu dwy flynedd. Dywedodd Ceri Davies y byddai’r cyllid yn galluogi CNC i ddyblu maint y tîm sy’n gweithio ar hyn, gan ganiatáu i staff gynnal llawer mwy o ymweliadau fferm a, lle bo’n briodol, gwneud gwaith gorfodi. Eglurodd Ceri Davies y byddai’r ymateb yn seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar y sectorau sy’n achosi’r llygredd mwyaf sylweddol ledled Cymru.

## Gorlifoedd carthffosydd

**41.** Mae’r pwysau ar seilwaith carthffosiaeth Cymru wedi’u hamlygu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn dilyn adroddiadau a phrotestiadau cyhoeddus ynghylch gollyngiadau carthffosydd nas caniateir. Cynhaliodd y Pwyllgor hwn waith ar ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion. Cyhoeddodd adroddiad ar orlifoedd storm ym mis Mawrth 2022, a wnaeth nifer o argymhellion i CNC (ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a’r cwmnïau dŵr).

**42.** Un o’r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw oedd y dylai CNC sicrhau “cynnydd amlwg” ar ei waith i ddod â gorlifoedd stormydd 'nas caniateir' o fewn y drefn reoleiddio. Yn ei ymateb, dywedodd CNC ym mis Hydref 2021:

> *“Dŵr Cymru provided NRW with an initial estimate that, of 174 unpermitted storm overflows identified, only 16 were estimated to be satisfactory (i.e. no environmental impact and meet modern design standards), and 40 were Emergency Overflows, operating as Storm Overflows.”*

**43.** Mae CNC wedi nodi'r angen i adolygu ei ganllawiau presennol ar gyfer Dosbarthu Gorlifoedd Stormydd, gan gomisiynu ymgynghorwyr i gynnal yr adolygiad ym mis Chwefror 2022, gyda’r nod o gwblhau hyn erbyn diwedd 2022. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, rhaid i gwmnïau dŵr asesu a dosbarthu pob ased, a gwneud cais am drwydded.

**44.** Mae CNC yn parhau i gyhoeddi adroddiadau amgylcheddol blynyddol cwmnïau dŵr, a disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Gorffennaf 2023. Dywed y

bydd yn parhau i wella'r adrannau o'r adroddiadau hyn sy'n ymwneud â gorlifoedd stormydd.

**45.** Darparodd Ceri Davies ddiweddariad am y gwaith ar orlifoedd stormydd 'nas caniateir'. Dywedodd fod darn o waith ar y gweill a oedd yn cynnwys ystyried y diffiniad o arllwysiad diwrnod sych a pha gyfansymiau glaw y dylid eu hystyried yn argyfwng. Roedd disgwyl i'r broses hon gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.

**46.** Soniodd Ceri Davies, ers ffurfio CNC, eu bod wedi mynd ar drywydd 13 erlyniad, 24 rhybudd ffurfiol, a phedwar achos gorfodi yn erbyn y cwmnïau dŵr. Yn ogystal, roeddent wedi cyhoeddi 244 o lythyrau rhybuddio ac wedi darparu 32 achos o gyngor ac arweiniad. Mae pum achos yn mynd drwy broses gyfreithiol ar hyn o bryd, ac mae CNC yn ymchwilio i 19 o achosion eraill cyn dechrau proses gyfreithiol. Ychwanegodd, fodd bynnag:

> *"we are taking action, but that is action when damage has occurred. So, there is a huge amount of work that we do on a day-to-day basis to ensure that we are working and regulating these companies—like Welsh Water and Hafren Dyfrdwy in Wales—to ensure that they're putting in place the right things to stop these activities from occurring."*

**47.** Tynnodd Ceri Davies sylw hefyd at y ffaith nad y cwmnïau dŵr yn unig sy'n achosi llygredd, ac mae CNC wedi nodi'r holl gyfranwyr at y broblem llygredd drwy fodelu dosraniad ffynonellau. Pwysleisiodd yr angen am weithredu ar y cyd ac i wahanol sefydliadau gydweithio i wella'r sefyllfa. Mae cadeirydd CNC yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Newid Hinsawdd i fynd i'r afael â'r mater a chymryd camau brys, tymor canolig a hirdymor i wella ansawdd dŵr yng Nghymru.

### Ofwat/PR24

**48.** Bob pum mlynedd, mae'r cwmnïau dŵr yn nodi eu cynlluniau ar gyfer faint y byddant yn ei godi ar gwsmeriaid, a'r hyn y byddant yn ei ddarparu, a elwir yn broses adolygu prisiau. Rhaid i'r cwmnïau dŵr gyflwyno cynllun busnes Adolygiad Prisiau 2024 (PR24) i Ofwat ym mis Hydref 2023. Bydd hyn yn sefydlu'r cyllid ar gyfer buddsoddiad gan y cwmnïau dŵr yn eu 'Rhaglen Rheoli Asedau'.

**49.** Mae papur CNC yn dweud bod yn rhaid i gwmnïau dŵr fuddsoddi ar raddfa a chyflymder er mwyn mynd i'r afael â'r niwed o'u gweithrediadau ac atal hyn. Drwy'r broses adolygu prisiau mae'n dweud fel a ganlyn:

> *"… expects water companies in Wales to ensure all unpermitted storm overflows meet satisfactory standards for the asset management plan period (2025-30)."*

## Llygredd ffosfforws

**50.** Dros nifer o flynyddoedd, cynhaliodd CNC asesiad cydymffurfiaeth o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd Cymru yn erbyn targedau ffosfforws. Mae CNC wedi sefydlu prosiect afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i fynd i'r afael â materion o ran rheoli a rheoleiddio ansawdd dŵr yn Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cymru. Mae papur tystiolaeth CNC yn dweud ei fod wedi sefydlu rhaglen i ddod â dalgylchoedd sy'n methu yn ôl i gyflwr ffafriol. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn ehangach na ffosfforws ac yn cynnwys priodoleddau ansawdd dŵr eraill.

**51.** Mae rhagor o fanylion am atebion i fynd i'r afael ag effaith targedau ffosffad wedi'u rhannu â'r Senedd, gan gynnwys bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu 'cyfrifiannell maetholion cenedlaethol' a 'chynigion caniatáu dalgylch'. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd CNC ei fod wedi profi cyfrifiannell maethynnau genedlaethol ar ddalgylchoedd llai. Nod y gyfrifiannell yw deall llwythi a galluogi gwneud penderfyniadau am stripio ffosffad, rhag-driniaeth, a mecanweithiau triniaeth. Bydd byrddau rheoli maethynnau yn gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli'r system afonydd i sicrhau eu bod yn gweithredu ar ganlyniadau'r cyfrifiadau.

## Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd

**52.** Mae cyflwyniad ysgrifenedig CNC yn tynnu sylw at y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd (y tasglu), sy'n cynnwys CNC, Llywodraeth Cymru, Ofwat, y ddau gwmni dŵr o Gymru, Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

**53.** I ddechrau, edrychodd y tasglu ar werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru a datblygu cynlluniau manwl i ysgogi newid a gwelliant cyflym. Mae wedi nodi pum maes ar gyfer newid a gwelliant y mae angen gweithredu ymhellach arnynt. Cyhoeddodd gynllun gweithredu ar gyfer pob maes ym mis Gorffennaf 2022:

- Lleihau effaith weledol: gosod sgriniau: cynllun gweithredu;
- Capasiti'r rhwydwaith (cynllun rheoli draenio a gwastraff dŵr): cynllun gweithredu;
- Gwella ansawdd elifiant ac ansawdd afonydd: cynllun gweithredu;

- Rheoleiddio amgylcheddol ar gyfer gorlifoedd stormydd: cynllun gweithredu; a
- Dealltwriaeth ac ymgysylltiad â'r cyhoedd: cynllun gweithredu

**54.** Mae nifer o gamau gweithredu ar gyfer CNC, gan gynnwys darparu adroddiad gorlifoedd stormydd erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

### Dyfroedd mewndirol

**55.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn gwneud rhagor o ymrwymiadau i wella ansawdd dŵr drwy ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden a chryfhau trefniadau monitro ansawdd dŵr. Dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd yn ddiweddar fod y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen drwy arolwg a dull peilot y flwyddyn nesaf.

**56.** Dywedodd Ceri Davies fod CNC wrthi'n profi dull gweithredu i'w gymhwyso, gyda'r bwriad o gael dyfroedd ymdrochi mewndirol sy'n bodloni'r safonau ansawdd manwl hynny. Cadarnhaodd Clare Pillman y byddai CNC yn dechrau'r gwaith ar y meini prawf ac yn eu profi a'u treialu dros y flwyddyn a'r 18 mis nesaf.

## Llifogydd

**57.** Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ym mis Hydref 2020. Mae Adran 18 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC adrodd i Weinidogion Cymru ar gynnydd y Strategaeth Genedlaethol, gan gynnwys pob agwedd ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a gyflawnir gan yr Awdurdodau Rheoli Risg. Mae'n ofynnol i CNC adrodd bob dwy flynedd.

**58.** Cafodd y dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar y Strategaeth Genedlaethol ei ohirio o hydref 2022 i hydref 2023. Dywedodd Claire Pillman fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno I ohirio cyhoeddi'r adroddiad, a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol yn cefnogi hyn. Bydd yr adroddiad Adran 18 nesaf yn cael ei lunio yn hydref 2023.

**59.** Yn ôl Clare Pillman, nid oedd disgwyl i'r gohirio o ran cyhoeddi'r adroddiad effeithio'n sylweddol ar allu'r awdurdodau rheoli perygl llifogydd i gynllunio at y dyfodol, gan mai adroddiad ôl-weithredol sy'n canolbwyntio ar gyflawni yw hwn, nid adroddiad cynllunio sy'n edrych i'r dyfodol.

## Targedau bioamrywiaeth

**60.** Yn COP15, sef uwchgynhadledd bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig, cytunwyd ar fframwaith bioamrywiaeth byd-eang newydd, gan osod pedwar nod a 23 o dargedau i'w cyflawni erbyn 2030. Targed allweddol yw'r targed '30x30' (targed tri) sy'n ceisio diogelu 30 y cant o ddyfroedd daearol, mewndirol, ac ardaloedd arfordirol a morol erbyn 2030. Fe wnaeth 'Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth' diweddar Llywodraeth Cymru argymell camau gweithredu penodol i'w cymryd yng Nghymru i gyrraedd y targed 30x30, gyda CNC yn gyfrifol am gyflawni sawl un o'r rhain.

**61.** Bydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur a Pholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddaru yn sgil y fframwaith newydd. Mae'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad. Caiff Datganiadau Ardal, a ddatblygir gan CNC, eu paratoi mewn ymateb i'r Cynllun.

**62.** Dywedodd Ceri Davies fod CNC wedi datblygu cynllun gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r archwiliad dwfn bioamrywiaeth, ac mae gan CNC rai camau penodol i'w cymryd. Mapiodd CNC ardaloedd hollbwysig o rwydweithiau ecolegol â blaenoriaeth, datblygodd borth safleoedd gwarchodedig, a gweithiodd gyda pharciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol i gyflawni'r gofynion a nodwyd yn yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth.

**63.** Eglurodd Ceri Davies hefyd:

> *"we're working with the Welsh Government to administer a budget of around £45 million over the next three years to ensure that we're funding activities on the ground that are helpful in terms of where we need to be with the 30x30."*

**64.** Soniodd Clare Pillman fod argymhellion yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau adfer natur cyffredinol i Gymru, i'w dwyn ymlaen cyn gynted â phosibl yn ystod tymor y Senedd. Soniodd hefyd am yr angen am fframwaith mwy cynhwysfawr o dargedau dros gyfnod mwy estynedig a sefydlu grŵp arbenigol i weithio ar ddatblygu'r fframwaith hwnnw.

**65.** Soniodd Ceri Davies fod CNC wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru mewn rôl ymgynghorol i nodi'r hyn sydd ei angen ar gyfer y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol nesaf.

## Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau CNC ynghylch y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Rydym yn annog CNC i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar yr hyn y mae'n credu yw'r prif heriau o ran sicrhau statws da i bob corff dŵr erbyn 2027 a sut mae CNC yn bwriadu eu goresgyn. Dylai CNC hefyd esbonio sut y bydd yn sicrhau bod y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n amserol.

Mae llygredd sy'n deillio o amaethyddiaeth wedi bod yn bryder i'r Pwyllgor hwn drwy gydol tymor y Senedd hon a chredwn y dylai'r mater hwn fod yn flaenoriaeth i CNC. Rydym yn cydnabod bod CNC yn wynebu llwyth gwaith sylweddol o ran gorfodi rheoliadau llygredd amaethyddol ac yn nodi'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu bod CNC yn parhau i adolygu digonolrwydd lefelau staffio ac adnoddau ar gyfer gorfodi rheoliadau llygredd amaethyddol yng ngoleuni'r profiadau a gafwyd hyd yn hyn. Dylai CNC hefyd barhau i archwilio cyfleoedd i gryfhau cydweithredu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ffermwyr a sefydliadau amaethyddol, i hyrwyddo arferion cynaliadwy sy'n lleihau llygredd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am effaith gollyngiadau o garthffosydd nas caniateir ar ansawdd dŵr ac iechyd y cyhoedd. Rydym yn annog CNC i ddangos cynnydd o ran dod â gorlifoedd stormydd nas caniateir o fewn y gyfundrefn reoleiddio a chyflymu'r adolygiad o'r canllawiau ynghylch Dosbarthiad Gorlifoedd Stormydd. Dylai CNC hefyd barhau i weithio'n agos gyda'r cwmnïau dŵr i wella seilwaith a lleihau amlder ac effaith gorlifoedd carthffosydd.

Mae ymdrechion CNC i fynd i'r afael â llygredd ffosfforws yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd Cymru i'w canmol. Rydym yn awgrymu bod CNC yn rhoi rhagor o fanylion am gynnydd ac effeithiolrwydd y prosiect afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r gyfrifiannell maethynnau genedlaethol. Dylai CNC ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol i ddatblygu a gweithredu atebion ar raddfa dalgylch ar gyfer rheoli maethynnau.

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo ffurfio'r Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd a chyhoeddi cynlluniau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag agweddau amrywiol ar reoli ansawdd dŵr. Rydym yn annog CNC i barhau i wella cydweithredu a chydgysylltu ymhlith rhanddeiliaid er mwyn ysgogi newid a gwelliant cyflym mewn ansawdd dŵr. Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd y cynlluniau gweithredu hyn a chynnwys cymunedau mewn mentrau gwella ansawdd dŵr.

Nodwn ymdrechion CNC i ddynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden a monitro ansawdd dŵr er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu bod CNC yn cyflymu'r gwaith o ddatblygu a phrofi meini prawf ar gyfer dyfroedd ymdrochi mewndirol ac yn darparu amserlen glir ar gyfer eu gweithredu. Dylai CNC hefyd ymgysylltu ag awdurdodau lleol a sefydliadau twristiaeth i hyrwyddo defnydd cyfrifol o ddyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y ffaith bod cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i ohirio. Rydym yn annog CNC i sicrhau nad yw'r gohirio cyn cyhoeddi yn effeithio ar y gwaith o gynllunio mentrau rheoli perygl llifogydd a'u gweithredu. Dylai CNC hefyd fynd i'r afael ag unrhyw resymau dros ohirio mewn cylchoedd adrodd yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amserol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Yn olaf, rydym yn cymeradwyo ymrwymiad CNC i gyrraedd y targed 30x30 a nodau bioamrywiaeth byd-eang eraill. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a ddatblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Rhaid i CNC barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol, a fframwaith cynhwysfawr o dargedau adfer natur i Gymru, a dylai adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor ar ei rôl yn hyn o beth.

## Argymhellion

**Argymhelliad 7.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu adroddiad cryno i'r Pwyllgor ar y prif heriau o ran sicrhau statws da i bob corff dŵr erbyn 2027 ac amlinellu ei gynlluniau i'w goresgyn. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys dull gweithredu CNC i sicrhau bod y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n amserol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fynd ati'n rheolaidd i adolygu digonolrwydd lefelau staffio ac adnoddau ar gyfer gorfodi rheoliadau llygredd amaethyddol ac adrodd ar ei ganfyddiadau. Dylai CNC hefyd gryfhau ei brosesau o ran cydweithredu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ffermwyr a sefydliadau amaethyddol, i hyrwyddo arferion cynaliadwy sy'n lleihau llygredd.

**Argymhelliad 9.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos cynnydd o ran dod â gorlifoedd stormydd nas caniateir o fewn y gyfundrefn reoleiddio a chyflymu'r adolygiad o ganllawiau Dosbarthiad Gorlifoedd Stormydd. At hynny, dylai CNC barhau i weithio'n agos gyda'r cwmnïau dŵr i wella seilwaith a lleihau amlder ac

effaith gorlifoedd carthffosydd. Dylai CNC adrodd ar gynnydd chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 10.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi rhagor o fanylion am gynnydd ac effeithiolrwydd y prosiect afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r gyfrifiannell maethynnau genedlaethol. Dylai CNC hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol i ddatblygu a gweithredu atebion ar raddfa dalgylch ar gyfer rheoli maethynnau.

**Argymhelliad 11.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau â'i waith gyda'r Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd a sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt cynlluniau gweithredu.

**Argymhelliad 12.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gyflymu'r gwaith o ddatblygu a phrofi meini prawf ar gyfer dyfroedd ymdrochi mewndirol a darparu amserlen glir ar gyfer eu gweithredu. Dylai CNC hefyd ymgysylltu ag awdurdodau lleol a sefydliadau twristiaeth i hyrwyddo defnydd cyfrifol o ddyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden.

**Argymhelliad 13.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau nad yw'r gohirio cyn cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn effeithio ar y gwaith o gynllunio a gweithredu mentrau rheoli perygl llifogydd. Dylai CNC fynd i'r afael ag unrhyw resymau dros ohirio mewn cylchoedd adrodd yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amserol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

**Argymhelliad 14.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a ddatblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Rhaid i CNC barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol, a fframwaith cynhwysfawr o dargedau adfer natur i Gymru, a dylai adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor ar ei rôl yn hyn o beth.